


Hamdden

Mae pobl yn dod ar
wyliau i Kenya. Mae
Mombasa yn brysur
iawn yn yr haf.

Dw i'n hoffi rhedeg
marathon. Fy arwr
yw David Rudisha.

Kwa heri!



Fy hoff beth
am Kenya yw'r
anifeiliaid yn y
saffari. Fy hoff
anifail yw'r jiraff.

Dw i'n hoffi mynd
i'r farchnad i
siopa hefyd. Mae
te yn rhad yn y
farchnad.



- **Cyd-destun:** Hamdden, cerddoriaeth, a phobl enwog Kenya.

- **Ffeithiau:** Rydym ni'n meddwl am bobl Kenya fel rhedwyr da iawn – mae llawer o athletwyr o Kenya yn rhedeg yn y rasy hir yn y Gemau Olympaidd (400 metr neu hirach fel arfer). Enillodd David Rudisha o Kenya fedal aur yng Ngemau Olympaidd 2012 Llundain yn y ras 800 metr, a thorrodd record y byd ar yr un pryd. Rhai o enwogion eraill Kenya yw Catherine Ndereba (rhedwraig marathôn) a Mohamed Amin (ffotograffydd). Mae gwyliau yn Kenya yn boblogaidd iawn, e.e. gwyliau glan môr a gwyliau saffari yn y parciau cenedlaethol a'r gwarchodfeydd sy'n gwarchod anifeiliaid gwyllt. Mae'r ardaloedd hynny yn enwog am y 'pump anifail mawr', sef y llew, yr eliffant Affricanaidd, byfflo Cape, y lleopard a'r rhinoseros. Mae ymwelwyr hefyd yn mwynhau diwylliant a cherddoriaeth y wlad – y gerddoriaeth a'r dawnsio traddodiadaol, yn ogystal â'r gerddoriaeth fwy cyfoes fel *hip-hop*, *reggae*, *Afro-Jazz* a *Zanzibar Taarab*, a pherfformwyr megis Kenge Kenge a Suzzana Owíyo.

- **Cyfeiriadau yn atlas 'O Bedwar Ban Byd 2':** tt. 2–3, 4–5 ac 8–9.

- **Sgiliau:** Ymchwilio i ffynonellau a materion; nodi'r hyn y mae arnyn nhw eisïau ei ddarganfod a nodi sut mae gwneud hynny; didoli a grwpio gwybodaeth; gweld cysylltiadau rhwng achos ac effaith; mynegi eu barn a'u teimladau eu hunain; sgiliau mapio; creu/dilyn cyfarwyddiadau.

- **Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd:** Lleoedd a phobl: defnyddio atlasau a globau, dysgu sut a pham mae pobl a lleoedd yn perthyn i'w gilydd; adnabod sut gall gweithredoedd pobl wella neu niweidio'r amgylchedd; fi fy hun a phethau anfyw: priodweddau defnyddiau.

- **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol:** Datblygu hunanddelwedd gadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn fel aelod o wahanol gymunedau, a deall eu Cymreictod eu hunain; dechrau deall sut gallant warchod yr amgylchedd a gofalu amdano yn eu bywyd bob dydd.

- **Datblygiad creadigol:** Cael profiad o gerddoriaeth a dawnsiau o Gymru ac o ddiwylliannau eraill.

- **Cwestiynau i'w gofyn:** Pa anifeiliaid sydd yn Kenya? Beth yw saffari? Pam mae pobl yn mynd ar wyliau i Kenya? Pam mae parciau cenedlaethol a gwarchodfeydd yn gofalu am yr anifeiliaid gwyllt yn Kenya? Pa fath o anifeiliaid sydd yng Nghymru? A oes parciau cenedlaethol yng Nghymru? A yw pobl yn

dod ar wyliau i Gymru? Pam? Pa athletwyr enwog sy'n dod o Gymru? Pa fath o gerddoriaeth sy'n boblogaidd yng Nghymru?

- **Tasgau ffocws/heriau:**

- Chwilio am dair ffaith ddiddorol am bob un o'r 'pump anifail mawr', e.e. cyflymder rhedeg yr anifeiliaid, ac ati.
- Creu poster/pamffled i bobl fyddai'n hoffi mynd ar eu gwyliau i Kenya, e.e. 'Dewch ar wyliau saffari!'
- Creu map neu gynllun syml o barc cenedlaethol/saffari yn Kenya a llunio allwedd i gynrychioli'r gwahanol anifeiliaid a'u lleoliad.
- Paratoi cyfarwyddiadau i ymwelwyr sydd ar wyliau saffari yn y parc cenedlaethol.
- Defnyddio offer digidol pwrpasol i greu llyfryn electronig am Kenya.
- Trafod ac arbrofi pa ddefnydd fyddai'n addas i wneud drwm.
- Cyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth Affricanaidd gydag amrywiaeth o offerynnau.

- **Gwaith ymchwiliol/ymestynnol:**

- Dysgu rhifau yn Swahili – un – *moja*, dau – *mbili*, tri – *tatu*, pedwar – *nne*, pump – *tano*, chwech – *sita*, saith – *saba*, wyth – *nane*, naw – *tisa*, deg – *kumi*.
- Chwilio am wybodaeth am bobl enwog o Kenya – creu proffil/ffeil o ffeithiau syml.
- Chwilio am fwy o wybodaeth am Kenya, e.e. chwaraeon, coed acacia, Serengeti.

- **Adnoddau:** atlas, glôb, anifeiliaid tegan (y pump mawr), defnyddiau i wneud drwm, offer celf a chrefft, offerynnau cerddorol, llyfrau cyfair, offer digidol.

- **Geirfa:** gwyliau, parc cenedlaethol, gwarchodfa, saffari, eliffant, llew, byfflo, rhinoseros, lleopard, gwarchod, gofalu, helpu, bygythiad, perygl, arwr, athletwyr, cerddoriaeth.

- **Cymariaethau â diwylliant Cymru:** Cymharu diwylliant Kenya â diwylliant Cymru, e.e. cerddoriaeth, traddodiadau, dathliadau (e.e. y Sioe Fawr), crefydd, iaith; cymharu parciau cenedlaethol Kenya a Chymru; cymharu athletwyr Kenya a Chymru. Gwranddo ar anthem y ddwy wlad. Ffarwelio â'i gilydd yn Swahili: Hwyl fawr – *Kwa heri*.